**RHYBUDD o benderfyniadau cyfarfod Hybrid y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Mawrth,18 Chwefror, 2025**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm dydd Gwener, 21 Chwefror, 2025. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener, 28 Chwefror, 2025. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 3 Mawrth, 2025.

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, Gary Pritchard (Cadeirydd), Alun Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Roberts, Dafydd R Thomas, Robin Williams. |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (eitem 13);<br>Cynghorwyr Glyn Haynes a T. Ll Hughes MBE. |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |

(10.00 o'r gloch yb - 11.30 o'r gloch yb)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Ionawr, 2025.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Mawrth - Hydref 2025 gyda'r newidiadau ychwanegol a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ydi** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Monitro Cyllideb Refeniw - Chwarter 3, 2024/25**<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD -**<br>• **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024/2025;**<br>• **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/2025, y manylir arnynt yn Atodiad CH;**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/2025 yn Atodiadau D a DD;**<br>• **Cytuno i weithredu'r Ffioedd a Thaliadau newydd ar gyfer 2024/25, ac addasiadau iddynt, fel y manylir yn Atodiad E.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 3, 2024/25**<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD -**<br>• **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2024/25 yn ystod chwarter 3.**<br>• **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £2.696m a ychwanegwyd i'r rhaglen gyfalaf yn ystod chwarter 3 a newidiadau mewn cyllid, yn unol ag Atodiad C, fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £75.173m ar gyfer 2024/25.**<br>• **Cytuno bod unrhyw danwariant posib yn cael ei ddwyn ymlaen, fel y nodir yn adran 4.2 o'r adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2024/25.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 3, 2024/25**<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD -**<br>• **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 3 2024/25.**<br>• **Nodi'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2024/25.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2024/25**<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn ac anfon yr un adroddiad ymlaen at y Cyngor Llawn heb sylwadau ychwanegol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a roddwyd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chod Materion Ariannol 2021.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol - Bydd yr adroddiad Adolygiad Rheoli Trysorlys Canol** |

| | |
|---|---|
| | **Blwyddyn yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Ffioedd a Thaliadau 2025/26**<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhestr Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2025/26, fel a amlinellir yn y llyfryn yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gosod lefel y ffioedd gofal nad ydynt yn rhai gofal cymdeithasol ar gyfer 2025/26.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol - rhan o'r broses o osod y gyllideb a benderfynir gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2025/26**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD -**<br>• **Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu lefel y ffioedd fel a ganlyn:-**<br>  • **Gofal Preswyl (Pobl Hŷn) - £832.56 bob wythnos**<br>  • **Preswyl (EMI) - £930.37 bob wythnos**<br>  • **Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £906.70 bob wythnos**<br>  • **Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £1,071.41 bob wythnos**<br>• **Awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyllid i ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i ymchwilio i'w cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sail i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd a gytunwyd. Unrhyw eithriadau i'w cytuno gyda'r Aelod Portffolio Gwasanaeth Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion o oddi mewn i'r cyllidebau presennol.** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn gosod y ffioedd cartref gofal annibynnol ar gyfer 2025/2026 yn unol â pholisi cenedlaethol.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol - rhan o'r broses o osod y gyllideb a benderfynir gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Strategaeth Gyfalaf 2025 – 2030**<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo ac argymell y Strategaeth Gyfalaf 2025 - 2030 i'r Cyngor Llawn.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cynnig y Strategaeth Gyfalaf 2025 - 2030 yn unol â gofynion CIPFA a Chyfansoddiad y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. - Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn destun cymeradwyaeth Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Adolygu Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn**<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD :-**<br>• **Argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu'r Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig.**<br>• **Cefnogi argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini a Phartneriaeth a gynhaliwyd ar 12 Chwefror, 2025, bod:-**<br>  • **llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru yn pwysleisio'r** |

| | |
|---|---|
| | • angen am ddeddfwriaeth newydd er mwyn amddiffyn enwau Cymraeg hanesyddol;<br>• gofyn i Arweinydd y Cyngor godi'r mater gyda'r WLGA. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fabwysiadu'r Polisi Iaith diwygiedig** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol - Mae adolygiad y Polisi Iaith Gymraeg yn destun cymeradwyaeth y Cyngor Llawn** |
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Terfynu Cytundeb Partneriaeth GWE**<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD -**<br>• **Cymeradwyo terfynu'r gytundeb i weithio mewn partneriaeth efo awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru yng nghyd-destun Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol (GwE) ar y 31 o Fai, 2025 ac o ganlyniad diddymu yr angen am barhad Cyd-Bwyllgor GwE.**<br>• **Os bydd yr amserlen yn llithro, bod y Pwyllgor Gwaith yn rhoi'r hawl i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobol Ifanc, mewn cydweithrediad a'r Deilydd Portffolio Addysg, benderfynu ar ddyddiad addas i derfynu'r cytundeb.**<br>• **Bod y Pwyllgor Gwaith yn cadarnhau ei ymrwymiad cytundebol yng nghyswllt dod a'r trefniant i ben.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn terfynu'r cytundeb partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol eraill gogledd Cymru yng nghyd-destun GwE.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |